

Bwletin yr Awdurdod - Ebrill 2003

Mae'r isod yn crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd yn ystod trafodaethau Awdurdod S4C yn ystod ei gyfarfod ddydd Gwener, 28 Mawrth 2003.

Aelodaeth yr Awdurdod

Cadarnhaodd y Cadeirydd bod Enid Rowlands a Huw Wynne-Griffith bellach wedi derbyn gwahoddiadau oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol. Roedd Enid Rowlands wedi cytuno i barhau ar yr Awdurdod am dymor arall o bedair blynedd ac roedd Huw Wynne-Griffith wedi cytuno i wasanaethu am chwe mis pellach.

Ymddiriedolaeth Apêl Elusen S4C

Nodwyd nad oedd yna unrhyw ddatblygiadau pellach parthed penodi ymddiriedolwyr. Er hynny, cytunwyd y dylai Carys Howell fod yn aelod o'r Ymddiriedolaeth oedd yn goruchwyllo apêl elusen S4C ac yn ymuno felly gyda Cefin Campbell.

Nawdd

Adroddwyd ymhellach parthed y nawdd a argymhellwyd yn y cyfarfod diwethaf ar gyfer Cymraes y Flwyddyn. Wedi deall yn well natur y nawdd oedd yn cael ei argymhell, cytunodd yr Awdurdod y dylid parhau i gyfrannu £10,000 tuag at Cymraes y Flwyddyn.

Mesur Cyfathrebu

Ystyriodd yr Awdurdod nifer o agweddau yn ymwneud â'r Mesur Cyfathrebu, ond yn arbennig:

- y sefyllfa ddiweddaraf ar y trafodaethau ar y Mesur yn y Senedd
- penodiadau i fwrdd OFCOM
- gwaith gweithgor y Cynulliad ar faterion yn ymwneud ag OFCOM a materion eraill yn y Mesur fyddai'n effeithio ar Gymru
- ymwneud Awdurdod S4C gyda'r gwahanol gyrff uchod.

Adroddiad y Grwp Cydymffurfiaeth

Derbyniwyd adroddiad y Grwp Cydymffurfiaeth ac ystyriwyd yn benodol y mater isod a gyfeiriwyd at yr Awdurdod ar gyfer penderfyniad.

Uned 5 – Gwobrwyo'r Goreuon a ddarllledwyd ar 3 Ionawr 2003 –

Gofynnwyd i'r Awdurdod ystyried mater yn ymwneud â'r defnydd o Saesneg yn y rhaglen hon ar gyfer plant. Dangoswyd tâp a wnaeth gynnwys nifer o glipiau o'r rhaglen a hefyd ystyriwyd llythyr oddi wrth Antena, y cwmni cynhyrchu, oedd yn rhoi eu sylwadau nhw ar y sefyllfa.

Nododd yr Awdurdod fod 'Gwobrwyo'r Goreuon' yn ddigwyddiad blynyddol lle'r oedd gwylwyr Uned 5 yn cael cyfle i bleidleiso dros ei hoff actor, ffilm, sebon opera, ac ati. Wrth iddynt ystyried y tâp, cadwodd yr Aelodau dau ganllaw penodol mewn cof, sef:

Canllaw 5.22(iii)(b)

'Yn gyffredinol, ni ddylid ychwaith ddefnyddio unrhyw iaith ar wahân i'r Gymraeg mewn rhaglenni i blant hyn, ac eithrio o dan amgylchiadau arbennig iawn, e.e. 'os bydd gwylwyr y rhaglen wedi pleidleisio dros ryw arwr neu arwres sydd yn ddi-Gymraeg ac sy'n cael ei gyfweld yn benodol ar gyfer y rhaglen.'

Canllaw 5.17

'Ni ddylid defnyddio'r Saesneg wrth gyflwyno os nad oes rheswm golygyddol cryf dros wneud hynny.'

Esboniwyd i'r Awdurdod nad oedd y Grwp Cydymffurfiaeth wedi tynnu sylw at raglen wobrwyo *Uned 5* yn y gorffennol gan ei fod o'r farn ei bod wedi cydymffurfio â'r hyn a ganiateir o fewn canllaw 5.22(iii)(b). Er hynny, yn y rhaglen a ddarllledwyd ar 3 Ionawr 2003 roedd yna nifer o achlysuron lle'r oedd cyflwynwyr y rhaglen yn siarad yn uniongyrchol â'r gwylwyr yn y Saesneg cyn cyflwyno'r gwobrau yn Saesneg i'r buddugol.

Yn ystod eu trafodaethau ar y mater, lleisiodd yr Aelodau eu barn bod yr esiamplau o'r cyflwynwyr yn siarad yn uniongyrchol â'u gwylwyr yn y Saesneg yn hollol annerbyniol. Ni dderbyniwyd dadl y cwmni cynhyrchu ynglyn â'r angen i osod cliwiau i'r enillwyr. Fe ddylai'r paratoi o flaen llaw a fyddai wedi digwydd cyn saethu'r eitem wedi gwneud cliwiau yn ddiangen. Roedd y cwmni cynhyrchu wedi llwyddo i gydymffurfio â gofynion ieithyddol y canllawiau cydymffurfiaeth yn y gorffennol ac nid oedd yna unrhyw esgus am yr hyn a ddigwyddodd yn y rhaglen hon. Roedd yna wahaniaeth mawr rhwng cyflwynydd yn siarad â'i gynulleidfa yn uniongyrchol yn y Saesneg a chynnal cyfweiliad yn Saesneg gyda seren wrth drosglwyddo gwobr.

Cytunwyd: Bod *Uned 5 – Gwobrwyo'r Goreuon* wedi torri'r canllawiau ac y dylai llythyr cryf fynd at y cwmni cynhyrchu yn mynegi'r ffaith fod yr Awdurdod yn gwbl anfonol gyda'r modd y defnyddiwyd Saesneg o fewn y rhaglen hon. Yn ogystal, dylai'r dyfarniad gael ei gyhoeddi yn yr Adroddiad Blynyddol.

Materion Eraill

Yn ogystal trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiadau'r Prif Weithredwr – Materion i'w trafod a Materion er gwybodaeth
- Adroddiad Rhaglenni
- Adroddiad Cwynion
- Cofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd 11 Ebrill 2003
- Adroddiad Gwifren Gwylwyr
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad Chwarterol Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol